PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr Non Dafydd, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg (ar gyfer eitemau 4 a 5)
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitemau 5 a 6), Pennaeth Democratiaeth, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FO) (ar gyfer eitem 5 yn unig), Swyddog Sgriwtini (EA), Swyddog Pwyllgor (MEH), Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT).
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol; Y Cynghorydd Dyfed W Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd; Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol; Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd. Uwch Reolwr - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Gwynedd ac Ynys Môn) (FEE)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd John Ifan Jones Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Rheolwr Sgriwtini (AGD).

Estynnodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor eu dymuniadau gorau i Mr Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, fydd yn gadael ei swydd ddiwedd y mis.

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Euryn Morris ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5, Adroddiad Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2025 yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:-

Eitem 5 - Diogelu Corfforaethol

Gweithred 1 – Gwahodd y Fforwm Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini i ystyried cyfraniad y Panel Sgriwtini Addysg a'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol i'r gwaith o graffu ar adroddiadau Diogelu Corfforaethol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Mae eitem wedi'i chynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Fforwm Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhelir ar 25 Mawrth 2025.

Gweithred 2 – Sicrhau bod yr Aelodau Etholedig a staff yn rhoi blaenoriaeth i fynychu hyfforddiant mandadol ar ddiogelwch seiber.

Mae'r weithred yn flaenoriaeth i bob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth. Data Presenoldeb : Staff : 69% / Aelodau Etholedig : 97%.

Gweithred 3 – Trefnu cyflwyniad yn ystod Sesiwn Briffio Aelodau ar gyfraniad ysgolion i drefniadau Diogelu Corfforaethol yr Awdurdod.

Mae eitem wedi'i chynnwys ar raglen y Sesiwn Briffio Aelodau a gynhelir ar 3 Gorffennaf 2025.

Gweithred 4 – Ystyried strwythur yr adroddiadau Diogelu Corfforaethol, ac yn benodol, rhoi blaenoriaeth i gynnwys gwybodaeth ar wahân ar drefniadau diogelu mewn ysgolion.

Ystyriwyd y weithred a bydd camau'n cael eu cymryd.

4 ADOLYGU POLISI IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod Polisi Iaith Gymraeg presennol y Cyngor wedi'i fabwysiadu yn 2016, pan ddaeth y safonau iaith Gymraeg statudol i rym. Mae dealltwriaeth o'r safonau wedi aeddfedu ers hynny, ac mae arferion yr Awdurdod mewn perthynas â'r iaith wedi datblygu'n sylweddol. Mae'r polisi'n effeithio ar bawb sy'n delio â'r Cyngor, a lluniwyd y polisi drafft er mwyn cyflawni gofynion statudol y safonau iaith Gymraeg. Ychwanegodd fod y polisi drafft yn cyfrannu at nodau Cynllun y Cyngor a'r strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod trafodaeth y Pwyllgor :-

- Gofynnwyd beth yw'r prif heriau o ran rhoi polisi iaith Gymraeg ar waith. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod 55.8% o boblogaeth yr Ynys yn gallu siarad Cymraeg ac mae'r Awdurdod yn ffodus wrth recriwtio i swyddi ei fod yn gallu denu pobl leol fel arfer, sy'n gallu cyrraedd y meini prawf iaith Gymraeg. Wrth gydnabod ei bod yn anodd penodi pobl sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt i rai swyddi, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant er mwyn gwella gallu staff yn y Gymraeg. Ychwanegodd fod llawer o frwdfrydedd ymysg staff yr Awdurdod tuag at y Gymraeg ac mae nifer o staff hefyd yn cofrestru ar gyrsiau i wellau eu sgiliau iaith. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth mai adolygiad o'r Polisi Iaith Gymraeg yw hwn ac mae staff yn gyfarwydd â safonau iaith Gymraeg yr Awdurdod. Yn ystod sesiynau cynefino ar gyfer staff newydd, tynnir sylw at y safonau iaith Gymraeg ac mae gwybodaeth hefyd ar wefan fewnol yr Awdurdod ar gyfer staff.
- Holwyd sut mae arferion y Cyngor wedi newid ers i'r safonau iaith Gymraeg ddod i rym yn 2016? Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod sgiliau iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori yn y swyddi sydd ar gael yn y Cyngor. Ychwanegodd fod diwylliant yr Awdurdod wedi newid ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael ar gyfer unrhyw un sydd ddim yn siarad Cymraeg. Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, nodwyd bod aelodau wedi mynegi pryderon am gyfrwng iaith rhai o'r sesiynau hyfforddi ac at ddiwylliant cyffredinol a allai ymddieithrio pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod y mater wedi bod yn destun trafodaeth fewnol a chyflwynir adroddiad yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y sesiynau hyfforddi'n cael eu cyflwyno i Aelodau Etholedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, a dyma yw'r trefniadau presennol ar gyfer staff hefyd. Ychwanegodd bod y Cyngor wedi cysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r mater a godwyd, ond ni dderbyniwyd ymateb eto.
- Gofynnwyd beth yw'r prif wahaniaethau rhwng y polisi drafft a'r Polisi Iaith Gymraeg presennol? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod y Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig wedi'i symleiddio trwy gynnwys egwyddorion cyffredinol er mwyn cadarnhau sut mae'r Awdurdod yn gweithio mewn gwahanol gyd-destunau. Ychwanegodd nad oes fawr o newid yn y polisi o ran y ffordd o gynnal gwasanaethau'r Cyngor, ond er hynny, ymdrechwyd i

hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg, h.y. mae defnyddio gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd wedi cael ei hyrwyddo yn dilyn awgrym a wnaed yn y Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg. Cyfeiriodd hefyd at ddymuniad i gryfhau ymrwymiadau polisi er mwyn hyrwyddo a gwarchod enwau lleoedd Cymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at newidiadau yn y polisi diwygiedig i adlewyrchu arferion recriwtio a dethol presennol er mwyn gwneud y Gymraeg yn sgil, ar wahanol lefelau, ar gyfer y gwahanol swyddi o fewn y Cyngor.

- Nodwyd bod gan bob Cyngor Tref/Cymuned Bencampwr y Gymraeg. Gofynnwyd cwestiynau am rôl Pencampwr y Gymraeg o fewn y Cynghorau Tref a Chymuned a beth yw rôl Pencampwr y Gymraeg yn y gymuned, a beth yw'r disgwyliadau? Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod trafodaethau ynglŷn â dynodi Pencampwyr y Gymraeg mewn Cynghorau Tref a Chymuned ar yr Ynys wedi'u cynnal yn y lle cyntaf yn y Fforwm Iaith Gymraeg. Nododd fod y Cyngor yn aelod blaenllaw o'r Fforwm Iaith Gymraeg ac ystyrir bod dynodi Pencampwr y Gymraeg yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg, ond cydnabyddir bod angen darparu cefnogaeth ychwanegol i Bencampwyr y Gymraeg a byddant, felly, yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r polisi iaith Gymraeg yn cael effaith andwyol ar fusnesau lleol ar yr Ynys? Cyfeiriwyd at erthygl yn *The Times* yn ddiweddar oedd yn honni bod cynlluniau i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn wedi'u hatal am fod swyddogion wedi codi pryderon am yr effaith ar y Gymraeg. Derbyniwyd sicrwydd gan y Prif Weithredwr nad oedd y datblygwr wedi tynnu'n ôl o'r datblygiad yn Wylfa oherwydd yr effaith ar y Gymraeg. Roedd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn amlygu mesurau lliniaru o fewn y prosiect i warchod yr iaith Gymraeg, ond materion amgylcheddol oedd yn rhwystro'r datblygiad yn Wylfa ar y pryd. Ychwanegodd fod busnesau ar yr Ynys o'r farn bod gwarchod y Gymraeg yn gryfder i'r busnes.
- Gofynnwyd i ba raddau y mae arian grant i fusnesau gan Lywodraeth Cymru'n seiliedig ar feini prawf yn gysylltiedig â'u defnydd o'r Gymraeg? Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod y meini prawf ar gyfer derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru'n dibynnu ar ofynion rhaglenni grant penodol. Cyfeiriodd at y prosiect ARFOR sy'n derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn gallu hyrwyddo'r Gymraeg trwy gyfrwng prosiectau eraill ar gyfer busnesau o fewn y cynllun. Nododd y byddai angen anfon manylion am yr arian grant ar gyfer prosiectau, ynghyd â gofynion y meini prawf iaith Gymraeg, at Aelodau.
- Cyfeiriwyd at swyddi penodol o fewn yr Awdurdod sy'n anodd recriwtio iddynt. Gofynnwyd a fyddai'n fanteisiol nodi ar y fanyleb swydd y gallai fod yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg, yn hytrach na gorfod ail-hysbysebu swyddi fwy nag unwaith. Ymatebodd y Pennaeth Democratiaeth trwy ddweud mai eithriadau yw'r swyddi sy'n anodd recriwtio iddynt, ac er y gellir nodi ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg, rhaid cofio bod angen amser ar berson i ddysgu'r iaith. Roedd yn derbyn nad oedd angen cymaint o hyfedredd yn y Gymraeg ar gyfer rhai rolau o fewn y Cyngor, megis swyddi nad ydynt yn delio â chwsmeriaid.
- Gofynnwyd sut all y Cyngor ddylanwadu ar hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth yr Ynys. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg nad oes deddfwriaeth benodol i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg, a dim ond annog datblygwyr i roi enw Cymraeg ar ddatblygiad all y Cyngor ei wneud. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod yn ceisio amddiffyn enwau lleoedd hanesyddol

Cymraeg, ond mae gan berchnogion newydd eiddo hawl i newid enwau hanesyddol eu heiddo. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddeddfwriaeth newydd i warchod enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg, ac i bwysleisio'r angen am ddeddfwriaeth o'r fath, ynghyd â gofyn i'r Arweinydd godi'r mater gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- Gofynnwyd a yw Comisiynydd y Gymraeg wedi gosod unrhyw ofynion ychwanegol o ran y Gymraeg? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod 160 o safonau iaith Gymraeg wedi eu gosod ar yr Awdurdod ers 2016. Er y byddai'n bosib ailymweld â rhai o'r safonau, byddai angen dilyn proses statudol er mwyn gosod safonau ychwanegol. Nododd fod Comisiynydd y Gymraeg wedi cydnabod arferion effeithiol y Cyngor mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae rhannu arfer dda gyda chyrff cyhoeddus eraill wedi cael ei gydnabod hefyd.
- Gofynnwyd faint o staff y Cyngor sy'n manteisio ar y cynnig i ddysgu'r Gymraeg? Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod 43 o ddysgwyr yn manteisio ar gyrsiau ar hyn o bryd, ar lefel sylfaenol, canolradd ac uwch, ac mae hyn yn gynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod cyrsiau iaith Gymraeg hefyd ar gael i Aelodau Etholedig ac aelodau cyfetholedig.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r grŵp o swyddogion ac Aelodau Etholedig trawsbleidiol, fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad, wedi'i sefydlu i gynnal trosolwg o ddefnydd y Cyngor o'r iaith Gymraeg a rhoi'r polisi hwn ar waith, a gwneud argymhellion er mwyn hyrwyddo'r iaith. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd a'i fod yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau bwyllgor sgriwtini. Cytunodd i rannu gwybodaeth bellach am y grŵp gydag aelod o'r Pwyllgor, sef y Cynghorydd Pip O'Neill.
- Gofynnwyd pa gymorth all y Cyngor gynnig i fusnesau lleol er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'r broses dendro? Ymatebodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg trwy ddweud y gall contractwyr gyflwyno dogfennau tendr yn eu hiaith ddewisol. Nododd fod y Fforwm Iaith Gymraeg yn defnyddio arian grant i greu dogfen ganllaw ar gyfer busnesau. Fel Swyddog Polisi a'r Gymraeg, dywedodd y bu'n gweithio'n agos â chynrychiolwyr ARFOR i hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat.

PENDERFYNWYD :-

- **derbyn y Polisi Iaith Gymraeg drafft ac argymell ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn er eu cymeradwyaeth;**
- **anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddeddfwriaeth newydd i warchod enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol, a phwysleisio'r angen am ddeddfwriaeth o'r fath;**
- **gofyn i Arweinydd y Cyngor godi'r mater gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

5 ADRODDIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD - CRYNODEB O SEFYLLFA GYFREDOL ADY A CH

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a Ch) wedi'i sefydlu ym Medi 2017 fel gwasanaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu ers hynny er mwyn ymateb i newid yn y galw a'r cyd-destun ehangach. Roedd y gwasanaeth yn destun adolygiad allanol yn 2020, ac eto yn 2023. Mae pob ysgol yn derbyn arian i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod trafodaeth y Pwyllgor :-

- Gofynnwyd i ba raddau mae'r gwasanaeth ADY a Ch yn cynnig gwerth am arian, a pha gynlluniau sydd ar waith i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i leihau biwrocratiaeth a gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc nad yw deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth ADY a Ch ar hyn o bryd, oherwydd y goblygiadau diogelwch a chyfreithiol, ond mae ymchwil yn cael ei wneud fydd yn cynorthwyo i gyflwyno deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol. Dywedodd yr Uwch Reolwr - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad fod ymdrechion yn canolbwyntio ar leihau biwrocratiaeth mewn perthynas â'r cynlluniau datblygu unigol a hwyluso gwaith y Cydlynwyr o ran diweddaru'r cynlluniau hynny. Nododd fod Penaethiaid yn gofyn am fanciau o dargedau y gall ysgolion eu defnyddio gyda disgyblion sydd ag anghenion penodol er mwyn lleihau biwrocratiaeth, a gobeithir y bydd symud i ddull cyllido newydd, trwy fformiwla, ym mis Mawrth 2025 yn lleihau biwrocratiaeth hefyd.
- Gofynnwyd a oes unrhyw effeithiau andwyol posib yn gysylltiedig â'r dull ariannu trwy fformiwla a gyflwynir ym mis Mawrth 2025, ac a fyddai defnyddio fformiwla'n annog anghydfod ymysg ysgolion. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai modd trefnu Sesiwn Friffio ar y dull cyllido newydd trwy fformiwla a manylion y Cynllun Gweithredu ADY a Ch. Nododd nad yw'r dull cyllido trwy fformiwla ond yn berthnasol i'r sector cynradd ar hyn o bryd. Dywedodd yr Uwch Reolwr - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad y byddai'r fformiwla newydd yn cynnig mwy o sefydlogrwydd ariannol er mwyn cynnal lefelau staffio ac y byddai'n gyfundrefn fwy cyson o fewn ysgolion. Nododd bod y fformiwla'n seiliedig ar nifer y dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol, yn ogystal â difrifoldeb anghenion y dysgwyr. Bydd y fformiwla newydd yn seiliedig ar unigolion a chymhlethdodau disgyblion. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynglŷn â phryd fydd y fformiwla newydd yn cael ei gyflwyno yn y sector uwchradd. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, mai'r gobaith yw cynnal trafodaeth y flwyddyn nesaf ynglŷn â chyflwyno system debyg yn y sector uwchradd.
- Holwyd a oes mwy o rieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dewis addysgu eu plant yn y cartref. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y gwasanaeth addysg yn creu cynlluniau unigol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond os yw rhieni'n dewis addysgu eu plant yn y cartref, yna nhw sy'n gyfrifol am gefnogi eu plant a darparu ar gyfer eu hanghenion. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Addysg sicrhau fod yr elfen ddiogelu yn gadarn ac mae ymweliad yn cael ei gynnal â'r cartref cyn pen chwe wythnos ar ôl i riant benderfynu addysgu ei blentyn yn y cartref, a chynhelir ymweliad blynyddol wedi hynny. Nododd fod nifer y plant sy'n cael eu haddysgu

yn y cartref ar Ynys Môn wedi gostwng ychydig yn ddiweddar, gyda rhai plant yn dymuno ailymuno â'r gyfundrefn addysg.

- Gofynnwyd pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth o ran darparu ar gyfer anghenion ysgolion a rhoi lle canolog i ddysgwyr yn y broses, ac a yw'r galw am y gwasanaeth wedi cynyddu. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod gan bob disgybl gynllun datblygu unigol fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, ac mae hynny'n sicrhau fod lle canolog i'r plentyn yn y ddarpariaeth addysg. Nododd y bwriedir i'r ddeddfwriaeth newydd fod yn niwtral o ran costau, ond mae'r costau wedi cynyddu, efallai am fod pobl yn ymwybodol o anghenion plant unigol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl lfanc fod mwy o alw am y gwasanaeth ledled Cymru, ond nid yw'r capasiti na'r adnoddau wedi cynyddu. Nododd bod rhaid i'r gwasanaeth fod yn hyblyg er mwyn ymateb i'r gwahanol heriau ac mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol, fel y nodwyd mewn adroddiad diweddar gan Estyn. Mae gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau plant, y gwasanaeth iechyd a theulu plentyn yn hanfodol, oherwydd agweddau cymdeithasol anghenion cymhleth rhai plant.
- Cyfeiriwyd at ddiffyg cyllid ar gyfer cynnal y gwasanaeth ADY a Ch yn genedlaethol a lleol a chyflwynwyd cais i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn am arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth. Nodwyd hefyd bod angen cefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod angen i bob plentyn dderbyn addysg ddigonol, ac nid yw'n dderbyniol bod rhai plant yn gorfod aros cryn amser i gael eu hasesu, ac mae rhai plant yn gadael y system cyn cael eu hasesu. Roedd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg yn cytuno bod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth ADY a Ch.
- Nodwyd bod rhai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu lleoli mewn ysgolion prif lif, ond nid yw'r cyfleusterau'n addas bob amser gan fod angen iddynt fod mewn ysgol arbennig sydd â'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud yn yr Awdurdod mewn perthynas â'r 'hybiau' a leolir yn y bum ysgol uwchradd, ac a sefydlwyd ar y cyd gan y gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Swyddogion Lles, Swyddogion Ieuenctid ac Athrawon arbenigol yn gweithio yn yr hybiau hyn er mwyn cefnogi disgyblion. Ychwanegodd bod rhai disgyblion sydd ag anghenion arbennig wedi'u lleoli mewn ysgolion prif lif ac mae enghreifftiau hefyd o rai disgyblion na fyddent yn elwa o fod mewn ysgol arbennig. Gan fod y Cyngor yn Awdurdod bychan, gall gwahanol wasanaethau weithio gyda'i gilydd ac mae sefydlu'r 'hybiau' wedi profi fod y Cyngor yn gallu bod yn arloesol ac yn fwy effeithiol, er gwaetha'r diffyg cyllid a dderbynnir tuag at anghenion dysgu ychwanegol. Nododd y Prif Weithredwr fod cael arbenigedd o fewn y gwasanaeth ADY a Ch hefyd yn hanfodol i'r gwasanaeth er mwyn caniatáu i blant dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Ychwanegodd bod y ddeddfwriaeth newydd wedi'i sefydlu ac mae'n rhaid i'r Awdurdod ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth i'r plant, ond mae angen darparu mwy o adnoddau ar gyfer y gwasanaeth ADY a Ch.
- Cyfeiriwyd at brinder cenedlaethol o Seicolegwyr Addysg, a seicolegwyr dwyieithog yn arbennig. Gofynnwyd a fu unrhyw drafodaethau gyda phrifysgolion yng Nghymru, a Phrifysgol Bangor yn arbennig, mewn perthynas â hyfforddi Seicolegwyr Addysg. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod darparu llwybr hyfforddi ar gyfer Seicolegwyr Addysg dwyieithog wedi'i godi â Phrif Weinidog Cymru a gydag Is-ganghellor Prifysgol Bangor.

PENDERFYNWYD :-

- **derbyn yr adroddiad;**
- **anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i nodi bod angen darparu cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad;**
- **bod angen sicrhau cefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru, ar ran y 22 awdurdod lleol, i ddarparu rhagor o arian tuag at Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.**

6 ADRODDIAD CYNNYDD PANEL SGRIWTINI ADDYSG

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, y Cynghorydd Gwilym O Jones, mai hwn yw pumed adroddiad cynnydd y panel ac mae'n cyfeirio at y cyfnod rhwng Hydref 2024 ac Ionawr 2025. Nododd i'r Panel gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod y cyfnod hwn ac ystyriwyd y materion canlynol :-

- Yr Iaith Gymraeg;
- Gwella Dysgu ac Addysgu;
- Fframwaith Iechyd Meddwl a Llesiant;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant;
- Rhaglen Waith y Panel Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Hydref 2024 - Ionawr 2025.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod trafodaeth y Pwyllgor :-

- Gofynnwyd pa awgrymiadau y gellir eu gwneud i gryfhau gwaith y Panel ymhellach. Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod y panel wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc baratoi adroddiad i'r panel ynglŷn â diogelwch mewn ysgolion ar yr Ynys, a hynny'n dilyn dau ddigwyddiad trasig mewn dwy ysgol yn ddiweddar.
- Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor oni fyddai'n fwy priodol i'r Panel Sgriwtini Addysg, yn hytrach na'r Panel Sgriwtini Cyllid, graffu ar wariant ysgolion. Mewn ymateb, dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod y panel yn ystyried pynciau amrywiol a'i fod yn ystyried ariannu ysgolion. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn y dylai Swyddogion proffesiynol drafod ariannu ysgolion ac adrodd i'r Panel Sgriwtini Cyllid. Nodwyd y dylai cofnodion y tri Phanel Sgriwtini gael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o drafodaethau'r panelau hyn. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg ei fod o'r farn bod y Panel Sgriwtini Addysg yn cryfhau'r Gwasanaeth Addysg. Nododd fod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu peidio â lleihau'r cyllid i ysgolion yn y cynigion ar gyfer cyllideb 2025/26, ac un o'r prif resymau dros hynny oedd y pwysau ar y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Nododd fod pwysau'n cael ei roi ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio cael rhagor o arian ar gyfer addysg a'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod Gweithgor Sgriwtini wedi'i gynnal yn ddiweddar a bod rolau a chysylltiadau rhwng y Panelau Sgriwtini wedi cael eu trafod. Pan roddir cam 2 yr Adolygiad

Sgriwtini ar waith, nododd y bydd trafodaeth ynghylch sut mae'r tri Phanel Sgriwtini yn adrodd i'r rhiant Bwyllgor Sgriwtini. Ychwanegodd mai rôl y Panel Sgriwtini Cyllid yw monitro'r gyllideb, ac na ddylid gwanhau rôl y Panel. Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai Swyddogion perthnasol drafod y sylwadau am waith y tri Phanel Sgriwtini ymhellach ac adrodd i'r Fforwm Cadeiryddion/Is-gadeiryddion maes o law.

- Cyfeiriwyd at bwysau ar ysgolion yn gysylltiedig â disgyblion bregus ac anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad. Gofynnwyd pa gefnogaeth a darpariaeth sydd ar gael i staff addysgu os ydynt yn gorfod delio â sefyllfaoedd anodd a all godi mewn ysgol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod y Gwasanaeth Addysg yn cyflogi Swyddogion Lles i gefnogi staff addysgu, ac mae'r Gwasanaeth Cwnsela Medra ar gael i staff hefyd. Ychwanegodd fod Diwrnod Llesiant yn cael ei drefnu ar gyfer staff ar ôl hanner tymor ac y byddai nifer o asiantaethau allanol yn darparu cefnogaeth i staff addysgu.

PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod diwethaf o ran gwaith y Panel Sgriwtini Addysg.

7 ENWEBU AELOD O'R PWYLLGOR AR Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini ynglŷn ag enwebu aelod o'r Pwyllgor i'r Panel Sgriwtini Cyllid.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhelir ar 12 Mawrth 2025.

8 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2024/2025

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn manylu ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/25.

PENDERFYNWYD :-

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 o'r gloch yp

CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD